OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2002 Rhif 1087 (Cy.114)

DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

Rheoliadau Trwyddedu Rheoli Gwastraff (Diwygio) (Cymru) 2002

Wedi'u gwneud - -	*15 Ebrill 2002*
Yn dod i rym - -	*16 Ebrill 2002*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 29(10) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990(**1**), ac sydd yn awr wedi eu breinio ynddo(**2**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Trwyddedu Rheoli Gwastraff (Diwygio) (Cymru) 2002 ac maent yn dod i rym ar 16 Ebrill 2002.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

Diwygio rheoliad 12 o Reoliadau Trwyddedu Rheoli Gwastraff 1994

2.—(1) Mae Rheoliad 12 o Reoliadau Trwyddedu Rheoli Gwastraff 1994(**3**) yn cael eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Rhodder, yn lle paragraff (1)(b)—

"(b) plant for—

(i) the recovery, by filtration or heat treatment, of waste oil from electrical equipment,

(ii) the destruction by dechlorination of waste polychlorinated biphenyls or terphenyls (PCBs or PCTs), or

(iii) the collection or storage of a controlled substance from any waste product, installation or equipment;"

(3) Mewnosoder, ar ôl paragraff (1)—

(**1**) 1990 p.43.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo.

(**3**) O.S. 1994/1056; diwygiwyd rheoliad 12 gan O.S. 1995/288 ac O.S. 1996/634.